Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Healthcare Inspectorate Wales

# Adroddiad Cryno ar yr Arolygiad

## Pro Sports Medicine, Caerdydd
## Dyddiad yr arolygiad: 18 Ebrill 2023
## Dyddiad cyhoeddi: 19 Gorffennaf 2023



Mae'r ddogfen gryno hon yn rhoi trosolwg o ganlyniad yr arolygiad

ISBN Digidol 978-1-83504-410-0
© Hawlfraint y Goron 2023

Nodwyd gennym fod pob aelod o'r staff yn Pro Sports Medicine Caerdydd yn ymrwymedig i roi profiad cadarnhaol i gleifion. Rhoddodd pob un o'r cleifion a oedd wedi cwblhau holiadur AGIC adborth cadarnhaol ac roeddent o'r farn bod y gwasanaeth a ddarperir yn y clinig yn dda neu'n dda iawn.

Roedd y lefelau staffio a'r cymysgedd o sgiliau yn briodol i gynnal diogelwch y cleifion yn y clinig ar adeg yr arolygiad. Rhoddodd y staff y gwnaethom siarad â nhw adborth cadarnhaol ar weithio yn y clinig.

Yn gyffredinol, gwelsom dystiolaeth bod y gwasanaeth yn darparu gofal diogel ac effeithiol. Fodd bynnag, gwelsom dystiolaeth nad oedd y gwasanaeth yn cydymffurfio'n llawn â'r holl safonau na rheoliadau ym mhob maes.

Nodwch fod canfyddiadau'r arolygiad yn ymwneud â'r adeg y cynhaliwyd yr arolygiad.



# Yr hyn a wnaethom

Ceir manylion llawn am y ffordd rydym yn arolygu'r GIG ac yn rheoleiddio darparwyr gofal iechyd annibynnol yng Nghymru ar ein gwefan.

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o Pro Sports Medicine ar 18 Ebrill 2023.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys dau o Arolygwyr Gofal Iechyd AGIC ac un Adolygydd Cymheiriaid Clinigol.

Mae'r fersiwn gryno hon o'r adroddiad wedi'i chynllunio ar gyfer aelodau'r cyhoedd.

Mae adroddiad llawn, sydd wedi'i gynllunio ar gyfer y lleoliad, ac sy'n disgrifio'r holl ganfyddiadau sy'n ymwneud â darparu gofal diogel a dibynadwy o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol ar gael ar ein gwefan.

# Ansawdd Profiad y Claf

## Crynodeb Cyffredinol

Gwelsom fod staff y clinig yn gweithio i ddarparu triniaethau therapi chwaraeon i gleifion mewn amgylchedd a oedd yn hyrwyddo gwasanaeth o ansawdd. Roedd yr ystafelloedd trin yn lân ac yn daclus, a gwelsom y staff yn cyfarch cleifion mewn modd cyfeillgar a phroffesiynol.

## Lle gallai'r gwasanaeth wella

- Cynnig gwasanaeth hebryngwr i gleifion
- Darparu sgriniau preifatrwydd yn yr ystafelloedd trin
- Hyrwyddo'r ‘Cynnig Rhagweithiol’ i'r cleifion y byddai'n well ganddynt gyfathrebu drwy gyfrwng y Gymraeg.

## Nodwyd gennym fod y gwasanaeth hwn yn gwneud y canlynol yn dda

- Trin cleifion ag urddas a pharch, gan gynnal cyfrinachedd bob amser
- Sicrhau bod gwybodaeth ddigonol ar gael i gleifion am driniaethau a ddarperir yn y clinig, gan gynnwys cyfarwyddiadau gofal cyn ac ar ôl y driniaeth.

**Dywedodd y cleifion wrthym:**

Gwnaeth y cleifion y sylwadau canlynol:

*“Cefais driniaeth o'r radd flaenaf.”*

*“Lleoliad gwych, proffesiynol, glendid ardderchog, cwrtais, croesawgar a chefnogol. Roedd fy nhriniaeth yn effeithiol a gwnaeth y tîm fy helpu i gael diagnosis a dychwelyd i fy maes chwaraeon yn dilyn anaf hirdymor.”*

*“Rwy'n argymell y gwasanaeth a'r driniaeth a gefais yn y clinig hwn yn fawr.”*

# Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

## Crynodeb Cyffredinol

Yn gyffredinol, gwelsom dystiolaeth bod y gwasanaeth yn darparu gofal diogel ac effeithiol. Fodd bynnag, roedd peth tystiolaeth nad oedd y gwasanaeth yn cydymffurfio'n llawn â'r holl safonau na rheoliadau ym mhob maes.

## Lle gallai'r gwasanaeth wella

- Mae angen nodi dyddiad ar y polisi Rheoli Meddyginiaethau ac mae angen i'r staff ei lofnodi er mwyn dangos eu bod wedi ei ddarllen a'i ddeall.
- Mae angen gwirio'r cyfarpar brys yn rheolaidd a'i ddogfennu.
- Adolygu ffolder polisïau'r clinig i sicrhau bod yr holl bolisïau, gan gynnwys y polisi rheoli meddyginiaethau, yn gyfredol, yn berthnasol, wedi'u llofnodi gan bob aelod o'r staff, wedi'u dyddio, ac yn cynnwys dyddiad adolygu.
- Nid oedd y cofnodion meddygol ar gyfer y Llawfeddyg Orthopedig ar gael ar adeg yr arolygiad.
- Roedd angen cynnal gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ar bob aelod o'r staff.
- Nid oedd gwiriadau wedi'u cynnal ar statws imiwneiddio'r staff clinigol.
- Roedd angen i swyddog cymorth cyntaf wedi'i hyfforddi fod ar gael yn y clinig.

## Nodwyd gennym fod y gwasanaeth hwn yn gwneud y canlynol yn dda

- Roedd y cofnodion yn cael eu cadw'n dda ac roeddent yn cynnwys y wybodaeth ddisgwyliedig
- Roedd y cleifion yn cael eu gweld yn brydlon, heb restr aros
- Roedd y clinig yn cynnig sawl therapi cyfyngedig i safon uchel, gan ddilyn canllawiau NICE.

**Dywedodd y cleifion wrthym:**

## Gwnaeth y cleifion y sylwadau canlynol:

*"Gwnaeth pob aelod o'r staff wneud i mi deimlo'n gyfforddus ac ni wnaethant fy nrysu wrth ddefnyddio ieithwedd feddygol. Gwnaethant yn sicr fy mod yn deall yr hyn a oedd yn cael ei drafod."*

*"Perffaith. Proffesiynol. Gwnaethant egluro fy niagnosis a chefais gymorth yn ystod y camau dilynol."*

*"Roeddent yn wych. Ni allaf ofyn am unrhyw beth arall, roeddent yn barod i helpu ac ar gael bob amser. Nid oedd unrhyw beth yn ormod o drafferth."*

*"Mae'r staff bob amser yn gwrtais, cyfeillgar, parod eu cymwynas, proffesiynol iawn, yn meddu ar sgiliau cyfathrebu da iawn o'r derbynnydd i'r ffisiotherapydd. Cefais driniaeth a gofal o safon uchel."*

# Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

## Crynodeb Cyffredinol

Ar y cyfan, gwelsom fod diffyg strwythur cadarn i lywodraethiant ac arweinyddiaeth y clinig. Er bod y rheolwr cofrestredig yn frwdfrydig ac yn wybodus am ei waith a'r cleifion, nid oedd ganddo ddealltwriaeth dda o'r rheoliadau a'r gofynion sydd eu hangen i redeg y clinig o ddydd i ddydd.

## Lle gallai'r gwasanaeth wella

- Roedd angen i bob aelod o'r staff gael hyfforddiant gorfodol.
- Mae angen ffurfioli'r gwiriadau cyn cyflogi a storio'r ddogfennaeth.
- Cyflwyno proses arfarnu ffurfiol ar gyfer pob aelod o'r staff.

## Nodwyd gennym fod y gwasanaeth hwn yn gwneud y canlynol yn dda

- Roedd cymysgedd sgiliau staff y clinig yn briodol ar gyfer nifer y cleifion a'r gwasanaethau a ddarperir
- Roedd gwybodaeth ar gyfer y staff yn cael ei rhannu mewn grŵp WhatsApp lle y gall y staff gadw mewn cysylltiad.

# Y camau nesaf

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae'n ofynnol i'r gwasanaeth gymryd camau yn eu cylch, cânt eu nodi yn atodiadau'r adroddiad arolygu llawn.

Pan fyddwn yn nodi pryderon sy'n peri risg uniongyrchol i ddiogelwch cleifion, gofynnwn i'r gwasanaeth gymryd camau brys. Caiff y pryderon hyn eu hamlinellu yn yr atodiadau ac maent yn amlinellu'r camau a gymerwyd gan y gwasanaeth i amddiffyn diogelwch cleifion ac sydd wedi'u cymeradwyo gennym ni. Rydym hefyd yn darparu tabl manwl o welliannau a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle byddwn yn gofyn i'r gwasanaeth ddweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i ymdrin â'r meysydd hyn ac i wella ansawdd a diogelwch gwasanaethau gofal iechyd. Yn ogystal, rydym yn amlinellu pryderon a godwyd ac yn cydnabod y rhai a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad.

Ar yr adeg briodol, bydd AGIC yn gofyn i'r gwasanaeth gadarnhau bod camau wedi'u cymryd yn unol ag ymatebion rheolwyr a ddogfennwyd yn y cynllun gwella. Rydym hefyd yn gofyn i wasanaethau ddarparu tystiolaeth ddogfennol o'r camau a gymerwyd a/neu'r cynnydd a wnaed.

